Lili Wen Fach

Codi Calon / Gweledigaeth / Dewrder

Ar gwr y pentref roedd hen ŵr a hen wraig yn byw. Roedd y ddau yn casáu'r gaeaf am fod y tywydd yn oer a'r dydd yn fyr. Pan fyddai'r tywydd yn oer, oer fyddai'r hen ŵr a'r hen wraig byth yn mynd allan o'r tŷ gan eu bod ofn syrthio a thorri eu coesau. Felly, doedd yna ddim amdani ond aros yn y tŷ yn gynnes. Roedd hi wedi bod yn aeaf caled iawn. Roedd hi wedi bwrw eira'n drwm ac wedi rhewi'n gorn. Roedd yr haul fel petai wedi digio efo'r ddaear. Doedd o byth i'w weld yn yr awyr. Bob dydd byddai'r hen ŵr yn mynd i chwilio am goed tân ond roedd y rheiny'n dechrau prinhau. Roedd y ddau yn poeni'n arw os byddai'r tywydd oer yn parhau yna byddai'n anodd iawn cael coed tân a heb dân byddai'r ddau yn siŵr o rynnu i farwolaeth.

"Pa bryd mae'r gaeaf yma'n mynd i'n gadael ni?" gofynnodd yr hen ŵr.

"Paid ti â phoeni," meddai'r hen wraig, "Rydw i wedi gweld gaeafau oer stormus iawn ond bob tro mae'r gwanwyn yn siŵr o ddod. Mi ddaw y gwanwyn cyn bo hir gei di weld. Bryd hynny bydd yr adar bach yn dechrau canu, y blodau yn dechrau tyfu a'r coed yn deilio."

"Wel, gobeithio dy fod ti'n dweud y gwir," meddai'r hen ŵr yn ddigon digalon.

"Ond cofia di," meddai'r hen wraig, "Cyn y bydd y gwanwyn yn dod bydd yn siŵr o anfon ei negeseuwyr."

"O! a phwy ydi'r rheiny?" gofynnodd yr hen ŵr.

"Negeswyr y gwanwyn ydi lili wen fach neu dlws yr eira. Mi fydda nhw'n ysgwyd eu pennau cyn pen dim," meddai'r hen wraig yn sicr ohoni'i hun.

Y noson honno aeth yr hen ŵr i'w wely yn ddigon trist. Tybed oedd negeseuwyr y gwanwyn am ddod y noson honno. Tybed fyddai yna ddigon o goed tân ar gyfer gweddill y gaeaf? Tybed oedd yr haul wedi digio efo'r ddaear? Dyma'r

cwestiynau oedd yn ei flino. Bu'n troi a throsi drwy'r nos; wnaeth o ddim cysgu winc. Cododd yn fuan fore drannoeth a gwnaeth frecwast cynnar iddo ef a'i wraig.
"Mi ydw i am fynd i chwilio am goed tân ben bore yma, yn syth ar ôl brecwast," meddai wrth yr hen wraig.
Ar ôl iddo orffen bwyta, gwisgodd ei gôt fawr, ei fenig a'i sgarff ac aeth allan drwy'r drws. Beth welai yn chwifio eu pennau yn yr ardd, ynghanol yr eira, ond clwstwr o dlws yr eira yn ysgwyd eu pennau yn y gwynt oer. Galwodd ar ei wraig y munud hwnnw. "Tyrd yma," gwaeddodd "edrych beth sydd yma yn yr ardd, negeswyr y gwanwyn."
"Roeddwn i'n dweud wrthyt ti," meddai hithau. "Roeddwn i'n gwybod nad oedd y gwanwyn ddim ymhell. Gyda hyn, bydd y tywydd oer yn cilio a bydd gwyrddni newydd yn ymddangos ar draws y wlad i gyd."
"Wel, diolch am hynny," meddai'r hen ŵr yn hapusach erbyn hyn.
Ffarweliodd â'r hen wraig a ffwrdd a fo i chwilio am goed tân.
"Y tro olaf gobeithio y gaeaf hwn," meddai wrtho'i hun.

O Dduw, diolch am dymor y gwanwyn. Bydd hwn yn dod i godi'n calonnau ar ôl tymor du y gaeaf. Amen.

- Sut fuasech chi'n disgrifio tlws yr eira?
- Oes yna enwau eraill ar gyfer y planhigyn hwn?
- Pam fod lili wen fach neu eirlys yn blanhigyn sy'n codi calon?